

# Economy 7

## Ar gyfer gwresogi a dŵr poeth

Mae Economy 7 yn dariff trydan sy'n golygu eich bod yn talu pris gwahanol ar gyfer eich trydan ar adegau gwahanol o'r dydd, ychydig fel galwadau ffôn oriau brig ac allfrig.

Gydag Economy 7, mae'r trydan rydych yn ei ddefnyddio gyda'r nos tua thraean o bris y trydan rydych yn ei ddefnyddio yn ystod y dydd - gwahaniaeth mawr. Yr oriau ar gyfer trydan rhad fel arfer yw o 12 hanner nos tan 07.00 yn y gaeaf, ac o 01.00 i 08.00 yn yr haf, er y gall hyn amrywio rhwng cyflenwyr.


Mae tariffau Economy 7 yn defnyddio math gwahanol o fesurydd trydan, sydd, yn wahanol i fesurydd safonol, yn gallu olrhain y trydan rydych yn ei ddefnyddio yn ystod y dydd a gyda'r nos ar wahân.

### A yw Economy 7 yn iawn i mi?

Tra bod Economy 7 yn rhoi saith awr o drydan rhad gyda'r nos i chi, yr anfantais yw ar gyfer yr 17 awr arall mae'r trydan yn costio mwy nag arfer - yn uwch na'r gyfradd tariff safonol. Mae hyn yn gweddu i rhai cwsmeriaid, ond nid eraill. Os ydych yn talu mwy am eich trydan yn ystod

### Awgrymiadau ar gyfer arbed arian os ydych ar dariff trydan Economy 7

- Defnyddiwch offer fel peiriannau golchi llestri, peiriannau golchi a sychu dillad gyda'r nos pan fydd trydan yn rhatach. Gallech brynu amseryddion ar eu cyfer os bydd hyn yn helpu.
- Yn yr un modd, os yw'n bosibl, gosodwch yr amserydd ar eich tanc dŵr poeth fel bod y twymwr tanddwr yn dod ymlaen yn ystod y nos, hyd yn oed os ydych yn defnyddio'r dŵr poeth yn ystod y dydd.
- Ystyriwch fuddsoddi mewn 'popty araf'; maent yn defnyddio llawer llai o drydan na phopty.
- Defnyddiwch ficrodon yn lle hob trydan lle bo hynny'n bosibl.
- Gosodwch fylbiau golau arbed ynni lle bo hynny'n bosibl



Mae mesuryddion Economy 7 yn dangos defnydd o drydan ar gyfer cyfraddau yn ystod y dydd a chyfraddau gyda'r nos.

Photo: Willcox

dydd, dylech feddwl am redeg offer fel eich peiriant golchi a pheiriant golchi llestri gyda'r nos.

Fel rheol bydd Economy 7 yn gost-effeithiol os ydych yn defnyddio trydan (nid nwy, sydd yn danwydd gwresogi llawer rhatach) ar gyfer eich gwres a dŵr poeth, ac os ydych yn defnyddio mwy na 80% o'ch trydan gyda'r nos.

Er mwyn i hyn fod yn wir, rydych bron yn sicr yn defnyddio gwresogyddion stôr trydan (mewn nod llun) ar gyfer cynhesu'r tŷ ac mae gennych danc dŵr poeth sy'n cael ei wresogi gan drydan. Mae hyn oherwydd y gall gwresogyddion stôr a thanciau dŵr poeth gael eu hamseru i ddefnyddio trydan nos rhad a'i storio fel gwres nes bod ei angen yn ystod y dydd.



Os ydych yn cynhesu eich cartref a dŵr gyda thrydan, ond nid oes gennych wresogyddion stôr neu danc dŵr poeth, mae'n debyg na fydd Economy 7 yn gost-effeithiol i chi.

Os ydych ar dariff Economy 7, bydd eich bil trydan yn dangos cyfradd y dydd a chyfradd gyda'r nos.

Yn yr un modd bydd eich mesurydd trydan yn dangos dwy set o rifau, un wedi'i farcio 'isel' ac un wedi'i farcio 'normal', neu fel arall gall fod cyfres o ffigurau wedi'u marcio 'cyfradd dydd' a botwm coch, yr ydych yn ei bwysu i gael eich darlleniad nos.

Os ydych mewn unrhyw amheuaeth p'un ai ydych ar Economy 7 ai peidio, ffoniwch eich cyflenwr trydan.



# Tips for lower energy bills



**Rhowch ddiwrnod yn yr haul i'ch dillad a rhowch seibiant i'ch peiriant sychu dillad.** Mae dillad wedi'u sychu yn yr awyr iach yn teimlo'n wych, ac mae dyddiau sychu yn y gaeaf, hefyd.

**Pan fyddwch yn coginio, cadwch ddrws y popty ar gau gymaint ag sydd yn bosib;** bob tro byddwch yn ei agor, bydd bron i chwarter y gwres yn dianc.



Mae bwyd yn y popty yn coginio'n gynt pan fydd aer yn cylchdroi'n rhydd, felly peidiwch rhoi ffoil ar y silffoedd.

**Peidiwch â gwefruch ffon drwyr nos.** Dim ond tair awr sydd ei angen arno - a cheisiwch beidio gadael y teledu ac offer eraill yn gorffwys.



**Dysgwch nhw'n ifanc.** Anogwch eich plant i ddiffodd teganau trydan a goleuadau nad ydynt yn eu defnyddio. Fe fyddant yn dod i ddeall arbed ynni yn fuan.

**Paned o de neu goffi?** Dim ond faint o ddŵr yr ydych ei angen ddylech chi ei roi yn y tegell (ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gorchuddio'r elfen fetel ar y gwaelod).



Gosodwch atalwyr drafft ar eich drws ffyrnt, blwch llythyrau a thwill allwedd, a chaewch eich lleni wrth iddi nosi er mwyn cadw'r gwres i mewn.



**Trowch y gwres i lawr 1 radd.** Fyddwch chi ddim yn sylwi ar y newid mewn tymheredd, ond bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'ch bil trydan.



**Arhoswch tan fydd gennyh chi lond llwyth** cyn rhoi'r peiriant golchi llestri neu'r peiriant golchi i fynd. Mae llwyth llawn yn defnyddio llai o ynni (a dŵr) na dau lwyth hanner llawn.

Gwnewch yn siŵr bod yr holl oleuadaun cael eu diffodd pan fyddwch yn mynd i'r gwely. Os ydych am oleuo ystafell plentyn neu landin, defnyddiwch olau nos watedd isel.



**Rhowch eich oergell mewn lle da.** Rhywle lle gall aer oer gylchredeg y tu ôl iddo, ond nid yn ymyl popty na rheiddiadur.

**Byddwch yn ffrind i'ch rhewgell.** Sicrhewch eich bod yn dadrewi'r rhewgell yn aml i'w helpu i redeg yn fwy effeithlon.

## Cyfrifiadur newydd?

Mae gliniaduron yn defnyddio tua 85% yn llai o ynni na chyfrifiadur personol pen desg newydd.



Updated, Feb 2016



3 St Peter's Court  
Bedminster Parade  
Bristol BS3 4AQ

0117 934 1400  
[www.cse.org.uk](http://www.cse.org.uk)  
[info@cse.org.uk](mailto:info@cse.org.uk)

Charity: 298740  
Founded: 1979

Cynhyrchwyd y daflen hon yn wreiddiol gan y Ganolfan ar gyfer Ynni Cynaliadwy, elusen genedlaethol (rhif 298740) sy'n helpu pobl i newid eu hagwedd a'u harferion o ran ynni

Mae ein Tîm Ynni Cartref yn cynnig cyngor am ddim ar y defnydd o ynni domestig i ddeiliaid tai ym Mryste a Gwlad yr Haf (gan gynnwys awdurdodau unedol Gogledd Gwlad yr Haf a Chaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf).



## For energy advice:

Phone **0800 082 2234**

Email [home.energy@cse.org.uk](mailto:home.energy@cse.org.uk)

Web [www.cse.org.uk/loveyourhome](http://www.cse.org.uk/loveyourhome)



[www.facebook.com/EnergySavingAdvice](https://www.facebook.com/EnergySavingAdvice)



[www.twitter.com/cse\\_homeenergy](https://www.twitter.com/cse_homeenergy)